Sgiliau'r dyfodol

Penderfyniadau ymgynghori ynghylch y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a

Bagloriaeth Cymru Uwch

Chwefror 2021

Cymwysterau Cymru Qualifications Wales

Cynnwys

Crynodeb 3

Cefndir 5

Ein penderfyniadau a sut y byddwn yn eu gweithredu 6

Teitl y cymhwyster 28

Y camau nesaf 29

Crynodeb

Ym mis Medi 2020, lansiwyd ein hymgynghoriad Sgiliau'r Dyfodol. Yn yr ymgynghoriad hwn, gwnaethom ofyn barn am newidiadau arfaethedig i gymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch a fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch. Yn benodol, gwnaethom gynnig:

- dod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch i ben gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch fel cymhwyster annibynnol; a
- datblygu cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch newydd.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Tachwedd 2020.

Yn y ddogfen hon, rydym yn crynhoi ac yn egluro ein penderfyniadau a sut y byddwn yn eu rhoi ar waith.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, rydym wedi gwneud y penderfyniadau canlynol.

1. **Rydym wedi cytuno y bydd fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch yn dod i ben, gan ganiatáu ffocws ar gymhwyster newydd a fydd yn disodli'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru) fel cymhwyster annibynnol.**

   Bydd hyn yn berthnasol o'r pwynt pan gyflwynir cymhwyster newydd i ddisodli'r THS Uwch (Bagloriaeth Cymru) gyfredol. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd o 1 Medi 2023.

2. **Byddwn yn datblygu cymhwyster newydd i ddisodli'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru) bresennol, a fydd yn cynnwys y nodweddion canlynol:**

   a) Pwrpas y cymhwyster newydd fydd galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol i baratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithredol.

b) Er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, bydd y cymhwyster newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu a dangos eu sgiliau mewn cyd-destunau yn seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru.

c) Strwythur y cymhwyster newydd fydd: Cydran 1 - Prosiect Cymuned Fyd-eang; Cydran 2 – Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol; Cydran 3 – Prosiect Unigol.

d) Bydd y tair cydran yn cyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn: Prosiect Cymuned Fyd-eang – 25%; Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol – 25%; Prosiect Unigol – 50%.

e) Bydd y cymhwyster newydd yn canolbwyntio ar asesu Sgiliau Cyfannol: Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesedd, Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol.

f) Bydd y cymhwyster newydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a rhoi ar waith eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Fodd bynnag, ni fydd y sgiliau hyn yn ddeilliannau dysgu ynddynt eu hunain, ac ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol arnynt.

g) Bydd pob cydran o'r cymhwyster newydd yn asesu pob un o'r pedwar Sgìl Cyfannol. Gellir pwysoli pob sgìl yn wahanol ar lefel cydran, ond rhaid i'r pedwar gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster cyffredinol.

h) Bydd y cymhwyster newydd yn cael ei raddio A*-E ar lefel cymhwyster.

i) Bydd dysgwyr yn gallu ennill gradd ar lefel cymhwyster heb orfod llwyddo ym mhob cydran. O ran tegwch, bydd dysgwyr yn parhau i fod â hawl i ail-sefyll pob cydran unwaith a dylai'r radd uchaf a gyflawnir ar gyfer y gydran honno gyfrif tuag at radd y cymhwyster.

Yn ogystal â chwestiynau'r ymgynghoriad, gwnaethom ofyn i ymatebwyr roi eu barn i'n helpu i benderfynu ar deitl y cymhwyster newydd. Teitl y cymhwyster newydd fydd **Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (lefel 3)**.

Cefndir

Rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd i adeiladu ar sylfeini cryf cymhwyster cyfredol y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru), gan gynnwys ei lwyddiant wrth helpu dysgwyr i gael mynediad i addysg uwch.

Rydym am ddatblygu ar y cryfderau hyn ond hefyd: ei wneud yn gymhwyster mwy hylaw i ddysgwyr a chanolfannau; gwella ymgysylltiad a lles dysgwyr; osgoi dyblygu dysgu blaenorol; a chynnig model symlach sy'n helpu i gyfleu gwerth, pwrpas a strwythur y cymhwyster yn gliriach.

I wneud hyn, rydym wedi canolbwyntio ar yr hyn sy'n gwneud y cymhwyster hwn yn brofiad dysgu unigryw i ddysgwyr. Rydyn ni am i ddysgwyr gael ymreolaeth a dewis yn yr hyn maen nhw'n ei astudio, a datblygu eu sgiliau trwy brofiadau dysgu dilys o fywyd go iawn.

Rydym wedi datblygu ar ganfyddiadau adolygiadau blaenorol[1] a'r safbwyntiau a fynegwyd inni gan ystod eang o randdeiliaid sydd wedi rhoi eu hamser ac wedi rhannu eu harbenigedd a'u profiadau.

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020, gwnaethom ymgynghori ar gynigion i:

- ddod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch i ben, gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (THS) fel cymhwyster annibynnol; a
- datblygu cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch newydd, gan gynnwys nodweddion dylunio allweddol.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Tachwedd 2020, ac rydym nawr yn cyhoeddi ein penderfyniadau a'r camau nesaf. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys prif fersiwn o'r arolwg ymgynghori a fersiwn cryno. Cawsom gyfanswm o 428 o ymatebion a gwnaethom ystyried pob ymateb wrth ddod i'n penderfyniadau.

---

[1] review-of-scc-final-report-e.pdf (qualificationswales.org); Bacc to the Future: The status of the Welsh Baccalaureate qualification (senedd.wales)

Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiad yn amlinellu'r canfyddiadau i'r ymgynghoriad, ynghyd â fersiwn cryno o'r adroddiad.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd amser i ymateb ac i gyflwyno'u barn i ni.

Ein penderfyniadau a sut y byddwn yn eu gweithredu

Mae'r cynigion yn ein hymgynghoriad yn ymwneud â:

- dod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch i ben, gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch fel cymhwyster annibynnol; a
- datblygu cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch newydd, gan gynnwys nodweddion dylunio allweddol.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n holl gynigion.

Yn yr adrannau canlynol, rydym yn egluro ein penderfyniadau ac yn trafod yr adborth a gawsom mewn perthynas â hwy.

Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch

1. Byddwn yn dod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch i ben, gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster annibynnol.

Cwestiwn ymgynghori 1

Dylid dod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch Cymru i ben, gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster annibynnol.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Daeth llawer o themâu i'r amlwg, gan gynnwys gwneud y cymhwyster yn haws ei ddeall; gwella'r dull o drin y cymhwyster ar gyfer dysgwyr a'u hathrawon; sicrhau gwell tegwch i ddysgwyr a chydnabod gwerth y THS Uwch fel cymhwyster annibynnol sy'n seiliedig ar sgiliau.

Bydd dod â fframwaith Bagloriaeth Cymru i ben yn gwneud y cymhwyster yn gliriach i ddysgwyr, canolfannau a rhanddeiliaid ei ddeall. Mae hyn oherwydd bod rhywfaint o ddryswch ar hyn o bryd ynghylch y gwahaniaeth rhwng y cymhwyster THS Uwch a fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru. Mae hyn yn bryder arbennig pan fydd dysgwyr yn ennill gradd ar gyfer y THS Uwch, ond yn methu â chyflawni'r cyfuniad gofynnol o gymwysterau i basio fframwaith Bagloriaeth Cymru. Gallai hyn arwain at ddysgwyr yn teimlo eu bod wedi methu, neu yn camddeall goblygiadau i'w llwybrau dilyniant. Bydd strwythur symlach sy'n canolbwyntio ar gymhwyster annibynnol sy'n seiliedig ar sgiliau yn ei gwneud hi'n haws cyfleu diben a gwerth y cymhwyster i ddysgwyr.

Rhannwyd y farn hon gan ymatebwyr. Er enghraifft, awgrymwyd y gallai strwythur newydd roi mwy o hygrededd i'r cymhwyster oherwydd problemau oedd i'w canfod gyda fframwaith cyfredol Bagloriaeth Cymru. Mae symud i ffwrdd o ddull fframwaith hefyd yn cydberthyn â'r ffaith fod dysgwyr yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r THS Uwch yn fwy na Bagloriaeth Cymru, gan mai'r THS Uwch sy'n denu pwyntiau tariff UCAS ac felly'n cael ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau i'r brifysgol, yn hytrach na fframwaith Bagloriaeth Cymru.

Mae dod â fframwaith ehangach Bagloriaeth Cymru i ben yn dileu'r gofyniad i lwyddo mewn cymwysterau llythrennedd a rhifedd ar wahân; roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai hyn yn decach i ddysgwyr. Er mwyn i ddysgwyr gael eu cofrestru ar gyfer y THS Uwch, rhaid eu cofrestru ar gyfer Bagloriaeth Cymru hefyd. I rai dysgwyr nad ydynt yn gallu cyflawni holl ofynion fframwaith Bagloriaeth Cymru, gallai hyn fod yn siomedig ac o bosibl effeithio'n andwyol ar eu lles. Awgrymwyd hefyd, trwy ddod â fframwaith Bagloriaeth Cymru i ben, y gallai'r rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, o ganlyniad, fagu mwy o ddiddordeb yn y cymhwyster.

Gallai symleiddio'r strwythur helpu i'w wneud yn fwy hylaw. Gan fod Bagloriaeth Cymru yn cynnwys nifer o gymwysterau, mae ei ddyfarnu yn golygu casglu ac agregu data gan lawer o wahanol gyrff dyfarnu. Bydd dod â'r fframwaith i ben yn dileu'r costau a'r gofynion gweinyddol y mae hyn yn ei olygu.

Wrth wneud ein penderfyniad, rydym yn cydnabod bod rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig cadw 'Bagloriaeth Cymru' fel brand, hyd yn oed pan fyddant yn cytuno â'r cynnig cyffredinol i roi'r gorau i'r fframwaith cyffredinol. Maent yn teimlo bod y brand wedi'i hen sefydlu ac yn gyfarwydd i ystod o randdeiliaid, gan gynnwys prifysgolion. Rydym yn cytuno na ddylai'r newidiadau i'r cymhwyster dynnu oddi wrth sut y cydnabyddir y cymhwyster. Yn benodol, mae hyn wedi bod yn sail i'n penderfyniadau ynghylch teitl y cymhwyster newydd [gweler tudalen 29].

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at fanteision canfyddedig fframwaith Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr ar lwybrau galwedigaethol. Mae hyn oherwydd bod y fframwaith cyffredinol yn helpu i greu cydraddoldeb rhwng cymwysterau Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 cyfatebol, sy'n cael yr un statws o fewn y fframwaith. Rydym wedi gwrando ar y farn hon a byddwn yn sicrhau bod manteision y cymhwyster sydd newydd ei strwythuro ar gyfer pob dysgwr yn cael eu cyfleu'n ofalus. Ein nod yw sicrhau bod y THS Uwch newydd yn ategu'r ystod lawn o gymwysterau a gymerir gan ddysgwyr ac y gall dysgwyr ddewis meysydd astudio i gefnogi eu llwybrau dilyniant penodol.

Y bwriad y tu ôl i'r fframwaith yw dangos ehangder cyffredinol cyflawniadau dysgwyr. Ond mae ein hymgysylltiad â chyflogwyr a phrifysgolion yn dangos mai'r THS Uwch ei hun y maent yn ei werthfawrogi, oherwydd y cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer datblygu sgiliau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyflogwyr a phrifysgolion i sicrhau bod y cymhwyster sydd newydd ei strwythuro o fudd i ddysgwyr.

Fel y nododd rhai ymatebion, bydd angen am hyfforddiant priodol i ymarferwyr yn parhau cyn cyflwyno'r cymhwyster newydd.

Yn ein hymgynghoriad, ni ofynasom am bolisi Llywodraeth Cymru i annog pob ysgol a choleg i gynnig Bagloriaeth Cymru fel rhan o'u rhaglenni dysgu, gan fod hyn y tu hwnt i gylch gwaith Cymwysterau Cymru. Cynigiodd rhai ymatebwyr farn ar y maes polisi hwn, y byddwn yn ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru.

Y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch Newydd

Amlinellodd ail ran yr ymgynghoriad ein prif gynigion ar gyfer cymhwyster THS Uwch newydd. Roedd y cynigion yn ymwneud â'r agweddau canlynol o'r cymhwyster:

- Diben
- Cyd-destunau dysgu
- Strwythur
- Strwythur asesu
- System raddio

2. Diben y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd fydd galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol er mwyn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.

Cwestiwn ymgynghori 2
Diben y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol er mwyn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn, gyda llawer o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r THS Uwch barhau i fod yn gymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau.

Yn benodol, cyfeiriodd ymatebwyr at bwysigrwydd datblygu sgiliau sydd â chysylltiad uniongyrchol â dilyn llwybrau yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod y THS Uwch yn darparu rhywbeth ychwanegol i'r hyn a gynigir yn y pynciau eraill y mae dysgwyr yn eu cymryd fel rheol.

Ystyrir bod y ffocws ar gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar yn gyd-destunau dysgu hynod berthnasol, a gallai hyn wneud y cymhwyster yn fwy deniadol. Mae ein penderfyniad hefyd yn seiliedig ar y math o ddysgu sy'n cefnogi diben y cymhwyster, gyda phwyslais yn cael ei roi ar brofiadau dilys, bywyd go iawn.

I baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, bydd y prif ffocws yn y THS Uwch newydd ar ddatblygu sgiliau: Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesedd; Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol. Dyma'r sgiliau y cyfeirir atynt yn y Cwricwlwm newydd i Gymru fel y Sgiliau Cyfannol, ac mae ein penderfyniad yn dangos ein bwriad i'r cymhwyster THS Uwch newydd gyd-fynd â datblygu sgiliau yn y cwricwlwm newydd, a chaniatáu dilyniant ohono. Bydd defnyddio'r un derminoleg yn helpu i wneud y cysoni hwn yn glir ac yn cefnogi ymarferwyr a dysgwyr gyda'r newid i addysgu a dysgu ôl-16.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y ffaith fod paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar hefyd yn nodwedd o'r cymhwyster cyfredol. Mae ein penderfyniad yn cydnabod cryfderau'r cymhwyster cyfredol yn bendant a'r nod yw i'r THS Uwch fydd newydd ei strwythuro ddatblygu ar y sylfeini cadarn hyn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod y ffocws ar ddinasyddiaeth weithgar yn dod â chyfleoedd i'r cymhwyster gyd-fynd â phedwar diben y cwricwlwm newydd.

Ein barn ni yw bod addysgu a dysgu sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau yn fwyaf hygyrch i ddysgwyr pan ddarperir gweithgareddau o fewn cyd-destunau dysgu perthnasol. Wrth fyfyrio ar hyn, amlygodd rhai ymatebwyr yr angen i ganiatáu i ddysgwyr chwarae rhan amlwg wrth lunio eu dysgu eu hunain ac osgoi sefyllfa lle byddai'r cynnwys yn mynd yn rhy gaeth. Mae hyrwyddo dewis i ddysgwr yn ganolog i ddiben y cymhwyster ac wrth symud ymlaen gyda'n gwaith, bydd hyn yn cael ei gyfleu'n glir. Rydym am i ddysgwyr arfer rhywfaint o ymreolaeth a dylid eu cefnogi i ddewis meysydd astudio sy'n ymwneud â'u diddordebau personol a'u nodau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Trafodir y mater hwn hefyd mewn perthynas â chwestiwn ymgynghori 3.

3. I baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, bydd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd yn gofyn bod dysgwyr yn datblygu ac yn dangos eu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru.

Cwestiwn ymgynghori 3

I baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ofyn bod dysgwyr yn datblygu ac yn dangos eu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Cododd ymatebwyr bwyntiau defnyddiol inni eu hystyried hefyd.

Un o gryfderau'r THS Uwch cyfredol yw'r cyfleoedd y mae'n eu rhoi ar gyfer ymgysylltu dinesig a beirniadol oherwydd y ffocws ar ddinasyddiaeth weithgar. Wrth ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau mewn cyd-destunau yn seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru, rydym yn bwriadu datblygu ar y cryfder hwn. Mae'r nodau hefyd yn berthnasol wrth i ddysgwyr ystyried eu nodau a'u dyheadau personol eu hunain, gan eu helpu i ystyried eu lles eu hunain a lles pobl eraill yn y dyfodol, a'u galluogi i feddwl am Gymru a byd cynaliadwy.

Amlinellodd ein hymgynghoriad nifer o fanteision i nodi'r cyd-destunau dysgu hyn. Roedd hyn yn cynnwys y syniad y gallai darparu fframweithiau eang i ddysgwyr allu defnyddio eu sgiliau wneud dysgu yn seiliedig ar sgiliau yn fwy ystyrlon, hygyrch a diriaethol.

Wrth ddewis y nodau Datblygu Cynaliadwy a nodau llesiant Cymru fel ffocws, rydym am sicrhau bod y cymhwyster yn gyfredol ac yn berthnasol; ei fod yn cyd-fynd yn bendant â phedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru a bod dimensiwn Cymreig sy'n edrych i'r dyfodol i'r cymhwyster. Rydym hefyd yn gweld hwn fel cyfle i wahaniaethu rhwng y cymwysterau ar lefel Genedlaethol/Sylfaen ac Uwch ac i gefnogi dilyniant priodol.

Cytunodd llawer o ymatebwyr fod y nodau Datblygu Cynaliadwy a nodau llesiant Cymru yn bwysig ac yn berthnasol i ddysgwyr. Gwnaethant gyfeirio at y fantais o gynnwys dimensiwn byd-eang a chenedlaethol, gan deimlo bod y cyd-destunau'n

briodol i'w hastudio ar lefel Uwch. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn fod manteision ehangach i gynnwys y nodau. Er enghraifft, yn ogystal â chefnogi dysgwyr gyda dinasyddiaeth weithgar, byddai codi ymwybyddiaeth yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol wrth helpu'r nodau i gael eu cyflawni.

Codwyd rhai materion hefyd y byddwn yn ymdrin â nhw wrth symud ymlaen. Bydd angen cyfathrebu'n ofalus y symudiad tuag at gyd-destunau dysgu â mwy o ffocws er mwyn sicrhau bod athrawon a dysgwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

Un thema a ddaeth i'r amlwg oedd diffyg sicrwydd ynghylch faint o wybodaeth arbenigol y byddai ei hangen ar athrawon, yn enwedig gan y gallai'r nodau gael eu hystyried yn gymhleth ac yn anodd eu deall. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd ei bod yn bwysig sicrhau nad oedd cwmpasu'r cynnwys hwn yn tynnu oddi ar y ffocws ar sgiliau. Er gwaetha'r ffocws mwy penodol, bydd y pwyslais o hyd ar hyrwyddo annibyniaeth ymysg dysgwyr. Yn hytrach na mynnu bod athrawon yn darparu cynnwys manwl yr agendâu hyn, y bwriad yw i ddysgwyr allu defnyddio'r nodau hyn fel platfform ar gyfer cyrchu ffynonellau gwybodaeth yn fwy annibynnol ac fel sylfaen ar gyfer cymhwyso eu Sgiliau Cyfannol. Wrth i'r fframweithiau hyn gael eu sefydlu, mae yna ffynonellau gwybodaeth hygyrch a diddorol amdanynt ar gael i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys ffynonellau dwyieithog mewn perthynas â'r nodau llesiant.[2]

Mynegodd ymatebwyr bryder hefyd ynghylch rhagnodi cyd-destunau dysgu a allai gyfyngu ar ddewis dysgwyr neu allgau fframweithiau perthnasol eraill. Rydym wedi dewis y Nodau Datblygu Cynaliadwy a nodau llesiant Cymru gan ein bod yn eu hystyried yn fframweithiau hynod berthnasol, nad ydynt yn cyfyngu. Maent yn darparu man cychwyn ac yn naturiol byddant yn helpu dysgwyr i weld cysylltiadau â fframweithiau a ffynonellau gwybodaeth eraill, gan ddibynnu ar y materion sy'n cael eu hystyried. Er enghraifft, gallai dysgwr sy'n archwilio nod llesiant Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ddewis cyfeirio at a thynnu

[2] www.un.org/sustainabledevelopment; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol Cymru 2015

tystiolaeth o Strategaeth y Gymraeg Cymru, sy'n anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd addysgu am hawliau a chyfrifoldebau fel agwedd sylfaenol ar ddinasyddiaeth, ac yn benodol hawliau plant. Rydym yn cytuno. Mae'r cyd-destunau dysgu rydyn ni wedi'u dewis yn cefnogi'r hawliau sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn trwy ganiatáu i bobl ifanc ddod yn fwy ymwybodol o'r prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw fel dinasyddion gwybodus, cyfrifol a gweithgar.

4. Dylid diwygio strwythur y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch er mwyn lleihau nifer y cydrannau o bedair i dair.

Cwestiwn ymgynghori 4

Dylid adolygu strwythur y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch er mwyn lleihau nifer y cydrannau o bedair i dair.

Y tair cydran wedi'u cynnwys yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod: Cydran 1 - Prosiect Cymuned Fyd-eang; Cydran 2 - Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol; Cydran 3 - Prosiect Unigol

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd cytundeb cyffredinol i'r cynnig hwn, gyda llawer o ymatebwyr yn cydnabod manteision lleihad yn nifer y cydrannau.

Bwriad lleihau nifer y cydrannau o bedair i dair yw ymdrin â'r pryderon oedd yn ymwneud â bod yn hylaw i ddysgwyr a'u hathrawon. Bydd llai o gydrannau yn lleihau'r gofynion a roddir ar y cymhwyster o ran cyflwyno, asesu a chymedroli, heb danseilio dilysrwydd y cymhwyster na gwerth y profiad dysgu. Bydd y newid hwn hefyd yn cyfyngu ar ailadrodd a dyblygu mewn dysgu ac asesu, ar draws cydrannau ar lefel Uwch a rhwng y cymwysterau ar lefel Uwch a Chenedlaethol/Sylfaen. Ein nod yw lleihau gor-asesu sgiliau, tra bydd hyn hefyd yn caniatáu i'r sgiliau hynny gael eu defnyddio mewn ffyrdd effeithiol a gwerthfawr.

Mae'r penderfyniad hwn yn golygu cyfuno'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang gyfredol a'r Her Gymunedol o fewn Prosiect Cymuned Byd-eang newydd. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng materion byd-eang, cenedlaethol a lleol yn fwy effeithiol, a bydd yn caniatáu i ddysgwyr fynd at eu hastudio mewn ffordd fwy cyfannol.

Bydd Prosiect newydd Cyrchfannau'r Dyfodol yn disodli'r Her Menter a Chyflogadwyedd gyfredol. Mae hyn yn golygu na fydd y gweithgaredd Menter yn cael ei gynnwys ar lefel Uwch mwyach, gan ddileu rhywfaint o'r ailadrodd yn y dysgu sydd hefyd yn digwydd yn y cymhwyster Cenedlaethol/Sylfaen. Rhoddir mwy o ffocws ar gyflogadwyedd i gwmpasu dealltwriaeth ehangach o'r ystod o ystyriaethau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau a dyheadau. Anogir dysgwyr i ystyried y nifer o ffyrdd y bydd eu penderfyniadau ynghylch cyrchfannau'r dyfodol yn cael effaith ar eu lles, yn ogystal â lles pobl eraill a sut y gall y rhain ddylanwadu ar fyd a Chymru sy'n gynaliadwy.

Cytunodd llawer o ymatebwyr â'r cynnig a gwnaethant awgrymu nifer o fanteision. Er enghraifft, teimlid y byddai llai o gydrannau'n lleihau'r llwyth gwaith i athrawon a dysgwyr. Gallai hyn o bosibl gael effaith gadarnhaol ar les, helpu i gynyddu diddordeb y dysgwyr, a galluogi athrawon i gyflwyno'r cymhwyster yn well o fewn yr amserlenni a ddyrannwyd. Barn arall oedd y gallai hyn wella canlyniadau o bosibl, gan y byddai gan ddysgwyr fwy o amser i gynhyrchu gwaith o ansawdd da.

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at elfennau penodol o'r cymhwyster newydd yr oeddent yn eu hystyried yn fuddiol. Er enghraifft, teimlid y byddai'r ffocws cryfach ar gyrchfannau'r dyfodol yn helpu i gyfleu diben a pherthnasedd y cymhwyster i ddysgwyr. Gan fod y Prosiect Unigol yn cael ei ystyried yn nodwedd gref, roedd ymatebwyr yn falch o'i weld yn cael ei gadw.

Er eu bod yn cytuno mewn egwyddor, amlygodd rhai ymatebwyr yr angen am ganllawiau clir ynghylch yr hyn oedd ei angen ar gyfer pob cydran er mwyn sicrhau bod y strwythur diwygiedig yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Cyfeiriodd rhai hefyd at golli rhai elfennau o'r cymhwyster, neu'r risg y gellid ystyried bod llai o gydrannau yn lleihad ym maint cyffredinol y cymhwyster, gan effeithio ar y gwerth a roddid ar y cymhwyster o'i gymharu â chymwysterau Safon Uwch.

Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r corff dyfarnu i sicrhau y darperir canllawiau clir am yr hyn sy'n ofynnol ym mhob cydran. Rydym yn cydnabod bod angen cyfathrebu'n ofalus wrth inni symud ymlaen gyda'n penderfyniad. Nid yw'r lleihad yn nifer y cydrannau yn gyfystyr â gostyngiad yn y gwaith o ddatblygu sgiliau neu faint, trylwyredd na'r galw am y cymwysterau. Yn hytrach, y nod yw gwneud y cymhwyster yn fwy hylaw ac yn fwy posibl ei gyflwyno yn yr amser a ddyrennir. Er y byddai llai o gydrannau, ni fydd yr Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) ar gyfer cyflwyno'r cymhwyster yn cael eu lleihau, a bydd y THS Uwch yn parhau i fod yn gyfwerth o ran maint â Safon Uwch. Gan y bydd maint a strwythur graddio'r cymhwyster cyffredinol yn aros yr un fath, ni fydd unrhyw effaith ar sut y mae pwyntiau UCAS yn cael eu priodoli i'r cymhwyster, ac felly ar sut y gellir defnyddio'r cymhwyster i gefnogi ceisiadau i'r brifysgol. Rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu â chyflogwyr a phrifysgolion wrth i'r cymhwyster gael ei ddatblygu.

Er na fydd rhai elfennau o'r THS Uwch cyfredol yn cael eu cynnwys yn y cymhwyster newydd ei strwythuro, mae'n bwysig bod y dysgu a ddarperir yn datblygu ar y profiadau ar lefel Genedlaethol/Sylfaen, wrth osgoi dyblygu a chaniatáu dilyniant effeithiol.

5. Bydd tair cydran y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd yn cyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn:
Prosiect Cymuned Fyd-eang – 25%; Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol – 25%; Prosiect Unigol – 50%

Cwestiwn ymgynghori 5

Dylai tair cydran y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn:

Prosiect Cymuned Fyd-eang – 25%

Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol – 25%

Prosiect Unigol – 50%

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn, a rhannodd llawer o ymatebwyr y safbwyntiau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Cododd yr ymatebwyr rhai pwyntiau pwysig i'w hystyried hefyd.

Rydym yn bwriadu symleiddio strwythur y cymhwyster i'w wneud yn haws ei ddeall a chefnogi modelau cyflenwi mwy hylaw dros gyfnod o ddwy flynedd. Wrth ddyrannu'r pwysoliadau fel hyn, mae disgwyl y gellir cyflwyno cydrannau 1 a 2 yn y flwyddyn astudio gyntaf, gan arwain at gydran 3 yn yr ail flwyddyn astudio. Mae hyn yn adlewyrchu'r dilyniant sydd ei angen ar ddysgwyr i astudio'n fwy annibynnol wrth gwblhau'r Prosiect Unigol.

Mae sicrhau bod cydrannau 1 a 2 yn cael eu pwysoli'n gyfartal hefyd yn dangos eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd ac y dylai dysgwyr dreulio tua'r un faint o amser yn eu cwblhau. Bydd y Prosiect Unigol yn parhau i gyfrif am 50% o'r cymhwyster

cyffredinol. Mae hyn yn adlewyrchu ei bwysigrwydd wrth baratoi dysgwyr ar gyfer addysg uwch a datblygu eu hannibyniaeth.

Rhannwyd sylwadau cadarnhaol eraill gan yr ymatebwyr. Er enghraifft, awgrymwyd y gellid gwella ymgysylltiad dysgwyr pe bai cydrannau'n cael eu cyflwyno yn ôl eu pwysoliadau mwy priodol.

Codwyd rhai pwyntiau defnyddiol i'w hystyried hefyd, gan gynnwys a ddylai'r strwythur newydd gael ei ategu gan dystysgrif ar ddiwedd blwyddyn gyntaf yr astudio, yn debyg i'r strwythur a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau Safon Uwch.

Rydym wedi meddwl am hyn ac rydym hefyd wedi'i ystyried yn y cam cyn-ymgynghori fel opsiwn. Cafodd ei ddiystyru am nifer o resymau, sef yn bennaf y byddai'n mynd yn groes i natur gyfannol y cymhwyster, lle mae datblygu ac asesu sgiliau yn digwydd mewn cyd-destunau dysgu lluosog. Mae cyfyngu dysgu i ddwy gydran yn golygu na fyddai dysgwyr yn gallu dangos yr holl sgiliau cyfannol (a setiau o is-sgiliau) yn ddigonol. Byddai ymrannu'r cymhwyster fel hyn hefyd yn tynnu oddi ar bwrpas y cymhwyster. Rydym am i ddysgwyr gael sylfaen yr holl brif gysyniadau fel y gallant gydgrynhoi a syntheseiddio'r rhain. Bydd yr asesiadau'n ceisio asesu sut mae dysgwyr yn dod â'r cysyniadau hyn at ei gilydd, yn hytrach nag ar lefel unigol.

Cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau amgen ynghylch sut y gellid dyrannu pwysoliadau i'r cydrannau unigol. Er enghraifft, un farn oedd y dylid lleihau'r pwysoli a ddyrennir i'r Prosiect Unigol, gan y gallai'r pwysiad arfaethedig gael effaith negyddol ar ddysgwyr nad yw astudio annibynnol yn un o'u cryfderau. Er gwaethaf cydnabod y pryder hwn, bydd y Prosiect Unigol yn caniatáu i ddysgwyr ar ystod eang o lwybrau dysgu ddewis meysydd astudio sy'n gweddu i'w hanghenion dysgu eu hunain, gan gynnwys dewis rhwng prosiect ysgrifenedig estynedig a phrosiect arteffact. Byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r meini prawf asesu ar gyfer y Prosiect Unigol gael eu gwella pan ddatblygir y cymhwyster newydd, gan ystyried y dystiolaeth sydd ei hangen yn ofalus, gan ddibynnu ar ba opsiwn y mae dysgwyr yn ei ddewis. Mae ein penderfyniad i'r Prosiect Unigol barhau i gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel hyn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a'r gwerth a roddir ar y gydran hon gan brifysgolion.

6. Bydd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd yn canolbwyntio ar asesu'r Sgiliau Cyfannol canlynol: Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesedd, Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol.

Cwestiwn ymgynghori

Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ganolbwyntio ar asesu'r Sgiliau Cyfannol canlynol: Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesedd, Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn, gyda llawer o ymatebwyr yn cytuno â'r rhesymau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Bydd canolbwyntio ar asesu'r Sgiliau Cyfannol yn symleiddio'r strwythur asesu.

Mae'r THS Uwch cyfredol yn ceisio asesu saith sgìl hanfodol, sydd hefyd yn ymwneud â chyflogadwyedd: y pedwar Sgìl Cyfannol a restrir uchod, yn ogystal â sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Mae'r sgiliau hyn i gyd yn bwysig, ond mae asesu cymaint â hyn o wahanol sgiliau mewn un cymhwyster yn heriol. Bydd canolbwyntio ffocws ar y Sgiliau Cyfannol yn gwneud yr asesiad yn fwy effeithlon a hylaw i ddysgwyr ac ymarferwyr. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i addysgu a datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac i archwilio cyd-destunau cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, sy'n ganolog i ddiben y cymhwyster. Mae hefyd yn cyfyngu

ar ailadrodd asesu llythrennedd a rhifedd, gan fod llawer o gyfleoedd i asesu'r sgiliau hyn yn y cymwysterau eraill y mae llawer o ddysgwyr yn eu cymryd.

Y Sgiliau Cyfannol hefyd yw'r sgiliau sydd wrth galon y Cwricwlwm newydd i Gymru. Wrth ddewis y ffocws asesu hwn, ein nod yw cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, gan gynnig parhad i ddysgwyr a chyfle i ychwanegu at y sgiliau a ddatblygwyd mewn lleoliadau cyn-16. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw hefyd at fanteision yr atgyfnerthu hwn.

Dangoswyd cefnogaeth hefyd i roi ffocws asesu ar y Sgiliau Cyfannol, gan fod ymatebwyr o'r farn fod cyflogwyr a phrifysgolion yn gwerthfawrogi'r sgiliau hyn yn fawr.

I rai ymatebwyr, mae'r ffocws ar y Sgiliau Cyfannol yn cyflwyno heriau ymarferol ar lefel asesu. Rydym yn cydnabod y bydd angen canllawiau clir ar y strwythur asesu diwygiedig er mwyn gallu ei weithredu'n llwyddiannus.

Awgrymodd rhai ymatebwyr sgiliau ychwanegol hefyd y gellid eu cynnwys yn y strwythur asesu newydd. Ymhlith yr enghreifftiau mae gwaith tîm, sgiliau cyfathrebu a sgiliau rheoli ariannol. Awgrymodd un farn hefyd y gallai'r THS Uwch newydd fod yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg fel rhan o strategaeth y Gymraeg ar gyfer y sector ôl-16.

Er ein bod yn cydnabod perthnasedd ystod eang o sgiliau, rydym hefyd yn gwybod nad yw ceisio asesu gormod o wahanol sgiliau mewn un cymhwyster yn hawdd, ac y gallai arwain at fodelau asesu cymhleth a beichus. Rydym hefyd yn datblygu'r cymhwyster Cenedlaethol/Sylfaen a'r cyfleoedd y gellir eu cyflwyno ar y lefel hon. Er enghraifft, mae rhai sgiliau ariannol a busnes yn debygol iawn o gyd-fynd gyda'r thema drawsbynciol entrepreneuraidd yn y cwricwlwm newydd. Bydd y cymhwyster THS Uwch newydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau yn annibynnol ac mewn cydweithrediad ag eraill. Trwy'r ffocws ar nodau llesiant Cymru, rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddewis dysgu am y Gymraeg ac i ddefnyddio ystod o adnoddau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, teimlwn fod asesu sgiliau Cymraeg y tu hwnt i gylch gwaith y cymhwyster hwn. Gallai effeithio ar ddewis dysgwyr o bosibl, ychwanegu at ofynion y strwythur asesu, a chodi pryderon ynghylch pa mor hylaw yw'r ddarpariaeth, sy'n faterion yr ydym yn ceisio ymdrin â nhw.

Rydym wedi ystyried y sgiliau sydd i'w cynnwys ar gyfer asesu yn ofalus trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys prifysgolion a chyflogwyr. Roedd yna gytundeb cryf iawn fod cymhwyster annibynnol sy'n seiliedig ar sgiliau sy'n

canolbwyntio ar y Sgiliau Cyfannol yn werthfawr, gan ategu'r ystod o gymwysterau eraill y mae dysgwyr yn eu cymryd ac yn cefnogi llwybrau dilyniant.

7. Bydd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a rhoi ar waith eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Ni fydd y sgiliau hyn yn ddeilliannau dysgu ynddynt eu hunain, ac ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol arnynt.

Cwestiwn ymgynghori

Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ofyn bod dysgwyr yn datblygu a rhoi ar waith eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Ni ddylai'r sgiliau hyn fod yn ddeilliannau dysgu ynddynt eu hunain, ac ni ddylai dysgwyr gael eu hasesu'n uniongyrchol arnynt.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig hwn. Cododd ymatebwyr bwyntiau pwysig i'w hystyried hefyd.

Yn yr adran uchod, gwnaethom egluro ein rhesymau dros ganolbwyntio asesiad y THS Uwch newydd ar y Sgiliau Cyfannol, gan bwysleisio pwysigrwydd y sgiliau hyn ar gyfer cefnogi dysgwyr gyda'u llwybrau dilyniant.

Rydym hefyd yn gwybod bod sgiliau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol yn bwysig ar gyfer paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, ac y bydd arddangos y pedwar Sgìl Cyfannol yn effeithiol yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, a'u cymhwysedd digidol, mewn ffyrdd perthnasol. Rydym wedi penderfynu y dylai'r cymhwyster newydd gydnabod hyn a chael ei ddylunio i roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau hyn. Fodd bynnag, bydd y sgiliau hyn wedi'u mewnblannu ac ni fyddant yn ddeilliannau dysgu ar wahân. Gallai asesu'r sgiliau hyn yn uniongyrchol dynnu sylw oddi wrth brif bwrpas yr asesiad, gan annog dulliau fformiwläig o gwblhau tasgau.

Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r penderfyniad hwn. Er enghraifft, cytunwyd bod asesu'r sgiliau hyn yn ychwanegu cymhlethdod i'r model asesu ac yn arwain at ailadrodd diangen gan fod y sgiliau hyn eisoes yn cael eu hasesu trwy gymwysterau eraill. Barn arall oedd y gallai dileu'r rhain fel deilliannau dysgu ar wahân leihau straen ar ddysgwyr sydd eisoes yn mynd drwy lawer iawn o asesu.

Mynegodd ymatebwyr hefyd rai materion y mae angen eu hystyried. Lleisiodd rhai bryderon ynghylch statws y sgiliau hyn os na chânt eu hasesu, gan dynnu sylw at broblemau posibl ar lefel weithredu. Teimlid y gallai mewnblannu'r sgiliau hyn heb eu cynnwys fel deilliannau dysgu fod yn ddryslyd i ddysgwyr a'u hathrawon wrth lunio barnau am welliannau yn y gwaith o ddatblygu sgiliau. Heb y gofyniad i asesu, teimlid na fyddai'r sgiliau hyn yn cael sylw digonol wrth addysgu a dysgu. Nododd un farn hefyd y gallai dileu'r gofyniad i asesu roi dysgwyr dan anfantais.

Rydym yn cydnabod y pryderon hyn ac yn gweld yr angen am esboniadau clir i arwain dysgwyr a'u hathrawon o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Rydym am i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth soffistigedig o sut y gallai sgiliau llythrennedd a rhifedd, a chymhwysedd digidol, helpu i arddangos y Sgiliau Cyfannol. Er enghraifft, gallai datblygu'r sgiliau sydd wedi'u mewnblannu gael ei ystyried yn anuniongyrchol gan y dysgwyr eu hunain fel rhan o effeithiolrwydd personol, gan gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o sgiliau yn annibynnol. Mae ystyried adborth hefyd yn sgìl effeithiolrwydd personol pwysig. Yn unol â hyn, bydd athrawon yn dal i allu cynnal eu hasesiad lleol a ffurfiannol eu hunain o'r sgiliau hyn sydd wedi'u mewnblannu fel rhan o addysgu a dysgu. Mae hyn ar wahân i gymwysterau a asesir yn allanol, ond mae'n bodoli ochr yn ochr â hwy.

8. Bydd pob un o gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd yn asesu'r pedwar Sgìl Cyfannol i gyd. Gallai pob sgìl gael ei bwysoli'n wahanol ar lefel cydran, ond rhaid i'r pedwar sgìl gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

Cwestiwn ymgynghori

Dylai pob un o gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd asesu'r pedwar Sgìl Cyfannol i gyd. Gallai pob sgìl gael ei bwysoli'n wahanol ar lefel cydran, ond rhaid i'r pedwar sgìl gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd yna gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Gwnaeth ymatebwyr awgrymiadau defnyddiol i ni eu hystyried hefyd.

Mae ein penderfyniad i'r pedwar Sgìl Cyfannol i gyd gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster yn ei gyfanrwydd yn adlewyrchu statws cyfartal pob un o'r sgiliau wrth baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar. Bydd pob un o'r Sgiliau Cyfannol yn cyfrannu 25% at gyfanswm cyffredinol y cymhwyster. Bydd hyn hefyd yn symleiddio'r strwythur asesu oherwydd yn y model cyfredol mae gwahanol bwysoliadau yn cael eu priodoli i sgiliau a aseswyd, sy'n gallu bod yn anodd eu deall.

Er y bydd yn rhaid pwysoli'r sgiliau yn gyfartal ar lefel cymhwyster, ni fydd yn ofynnol iddynt gyfrannu'n gyfartal at y canlyniadau ar lefel cydran. Mae ein penderfyniad yma yn adlewyrchu'r graddau amrywiol o bwysigrwydd a allai fod gan bob sgìl mewn

perthynas â'r tasgau sy'n cael eu cwblhau. Ein nod yw cefnogi profiadau dysgu dilys ac osgoi dulliau fformiwläig o asesu. Mynegodd rhai ymatebwyr gytundeb â hyn, gan awgrymu bod amrywio'r pwysoliadau a briodolir i sgiliau ar lefel cydran yn synhwyrol oherwydd bod rhai sgiliau'n fwy cymwys i'r gwahanol brosiectau. Awgrymwyd hefyd y gallai gwahaniaethu pwysoliad sgiliau ar draws y cydrannau helpu i osgoi ailadrodd tasgau ac asesu.

Un awgrym arall oedd y dylid priodoli gwahanol Sgiliau Cyfannol i wahanol gydrannau. Ein barn ni yw na fydd hyn yn cefnogi diben y cymhwyster. Rydym am sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu a chymhwyso pob un o'r sgiliau sy'n cael eu hasesu mewn ystod o gyd-destunau. Rydym am i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth soffistigedig ac eang o'r Sgiliau Cyfannol, gan ddysgu y gellir, ac y dylid, addasu sgiliau yn dibynnu ar y cyd-destun y cânt eu defnyddio ynddo. Yn ogystal, rydym am sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd sy'n cael eu colli i ddysgwyr gael eu hasesu ar y Sgiliau Cyfannol y bydd gofyn iddynt eu dangos.

Fel dewis arall, awgrymwyd y gellid pwysoli'r Sgiliau Cyfannol yn gyfartal ar lefel cydran. Awgrymwyd y byddai hyn yn haws ei ddeall ac y gallai osgoi rhoi dysgwyr mewn sefyllfa lle byddent yn teimlo dan anfantais mewn cydrannau lle roedd sgiliau yr oeddent yn teimlo'n llai hyderus ynddynt yn cael eu pwysoli'n uwch. Fodd bynnag, gan y bydd y Sgiliau Cyfannol yn cael eu rhannu i'w cydrannau, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu, cymhwyso a dangos pob sgìl mewn ffyrdd sydd wedi'u diffinio'n fras.

Rydym yn cydnabod y bydd angen canllawiau clir i helpu i egluro'r strwythur asesu. Mae hyn yn arbennig o wir oherwydd materion a godwyd ynghylch y potensial pellach i ailadrodd a dyblygu asesu'r Sgiliau Cyfannol ar draws pob cydran. Er mwyn lliniaru hyn, bydd angen diffinio pob Sgìl Cyfannol yn glir a'u rhannu i'w helfennau cyfansoddol a bydd angen nodi setiau o is-sgiliau. Bydd rhoi'r penderfyniad hwn ar waith yn golygu diffinio'r setiau hyn o is-sgiliau ac yna eu mapio i bob cydran o'r cymhwyster er mwyn osgoi dyblygu'r asesu.

9. Bydd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd yn parhau i gael ei graddio A *- E ar lefel cymhwyster.

Cwestiwn ymgynghori

Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd barhau i gael ei graddio A - E.*

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig hwn a chynigiodd ymatebwyr nifer o resymau dros gefnogi parhau i ddefnyddio'r system raddio A * - E.

Mae ein penderfyniad yn seiliedig ar y ffaith bod y system raddio hon yn gyfarwydd ac yn ddealladwy i gyflogwyr a phrifysgolion, gan gefnogi llwybrau dilyniant. Mae hefyd yn adlewyrchu tystiolaeth o'n hymgysylltiad ag ystod eang o randdeiliaid sy'n awgrymu bod y system raddio hon yn cael ei ffafrio yn hytrach nag opsiynau graddio eraill.

Thema sy'n dod i'r amlwg yn yr ymgynghoriad oedd tegwch, gan y teimlid bod y graddau a gyflawnir gan ddefnyddio'r raddfa raddio hon yn adlewyrchu'r gwaith a'r ymdrech sy'n ofynnol ar gyfer ennill y cymhwyster, a allai yn ei dro gael effaith gadarnhaol ar ymgysylltu. Mae'r system raddio hon hefyd yn adlewyrchu sut mae cymwysterau Safon Uwch yn cael eu graddio, ac felly gallai helpu i gyfleu trylwyredd a gwerth y cymhwyster.

Lle roedd ymatebwyr yn anghytuno, roedd hynny oherwydd eu bod yn dadlau bod y cymhwyster hwn yn wahanol i gymwysterau Safon Uwch. Awgrymwyd felly y byddai opsiwn arall, fel strwythur pasio/methu, yn fwy priodol. Cyfeiriodd un farn hefyd at fater lles a'r potensial i gyflawniadau rhai dysgwyr fynd heb eu cydnabod gan fod graddau is na 'C' yn aml yn cael eu cysylltu â chanfyddiadau o fethu, a allai fod yn niweidiol i ddysgwyr.

Rydym wedi ystyried y safbwyntiau hyn, ond rydym hefyd yn gwybod y gallai newid y system raddio effeithio ar werth canfyddedig y cymhwyster. Mae'r dewis o systemau graddio yn un o'r ffactorau sy'n cael eu hystyried pan ddyrennir pwyntiau tariff UCAS

i gymwysterau. Felly, byddai unrhyw newid i hyn yn gofyn am negeseuon gofalus, gan ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod wrth i werth a diben y cymhwyster gael ei gyfleu.

10. Bydd dysgwyr yn gallu ennill gradd ar lefel cymhwyster heb orfod llwyddo ym mhob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Er tegwch, dylai dysgwyr barhau i fod â'r hawl i ailsefyll pob cydran unwaith a dylai'r radd uchaf a gyflawnwyd ar gyfer y gydran honno gyfrif tuag at radd y cymhwyster.

Cwestiwn ymgynghori

Dylai dysgwyr allu cyflawni gradd ar lefel cymhwyster heb orfod llwyddo ym mhob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Er tegwch, dylai dysgwyr barhau i fod â'r hawl i ailsefyll pob cydran unwaith a dylai'r radd uchaf a gyflawnwyd ar gyfer y gydran honno gyfrif tuag at radd y cymhwyster.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Roedd yna gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Cododd ymatebwyr faterion pwysig i'w hystyried hefyd.

Mae ein penderfyniad yn golygu y bydd y cymhwyster newydd yn symud o ddull cymhwysedd, fel y'i defnyddir ar hyn o bryd, i ddull cydadferol. Dull cymhwysedd yw lle mae'n rhaid i ddysgwr basio pob cydran (ar lefel cyrhaeddiad isafol benodol) i

basio'r cymhwyster cyffredinol. Dull cydadferol yw lle nad oes rhaid i ddysgwr basio pob cydran, oherwydd gall cyflawniad uwch mewn un gydran wneud iawn am gyflawniad is mewn cydran arall pan ddyfernir graddau ar lefel cymhwyster. Defnyddir y model hwn yn gyffredin gyda chymwysterau TGAU a Safon Uwch.

Bydd pob un o'r cydrannau yn y cymhwyster newydd yn orfodol, fel sy'n wir gyda'r cymhwyster cyfredol. Fodd bynnag, gan y bydd pob un o'r Sgiliau Cyfannol yn cael eu hasesu ym mhob cydran, ac felly y bydd cyfle i ddysgwyr ddangos sut i gymhwyso'r pedair sgìl fwy nag unwaith, ni fydd angen i ddysgwyr orfod llwyddo mewn pob cydran i allu sicrhau gradd ar gyfer y THS Uwch yn ei chyfanrwydd.

O ystyried bod y dull cydadferol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch, mae hwn yn fodel cyfarwydd i lawer o ddysgwyr. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at sut y gallai'r newid hwn helpu i sicrhau cydraddoldeb â chymwysterau eraill. Gallai dileu'r gofyniad i basio pob cydran hefyd leihau'r pwysau y gallai rhai dysgwyr ei deimlo, heb eu hatal rhag datblygu a dangos sgiliau mewn mwy nag un cyd-destun dysgu. Gallai caniatáu i ddysgwyr wneud iawn mewn un gydran am berfformiad gwannach mewn cydran arall helpu i gynnal ymgysylltiad dysgwyr dros gyfnod y cwrs.

Mae ein penderfyniad hefyd yn golygu y bydd dysgwyr yn parhau i fod â hawl i ail-sefyll pob cydran unwaith ac y bydd y radd uchaf a gyflawnir am y gydran honno'n cyfrif tuag at radd y cymhwyster.

Pan oedd ymatebion ymgynghori yn cytuno â'n cynnig ni, roeddent yn tynnu sylw at les dysgwyr. Er enghraifft, un farn oedd fod y penderfyniadau hyn yn rhoi ail gyfle i ddysgwyr sy'n wynebu amgylchiadau eithriadol na ellid bod wedi eu rhagweld. Ymhellach, mae'r dull hwn yn cydnabod bod datblygu sgiliau yn digwydd dros amser i rai dysgwyr.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sut y gallai dileu'r gofyniad i basio pob cydran effeithio ar drylwyredd canfyddedig y cymhwyster. Gan fod y model hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Safon Uwch, a chan y bydd pob un o'r sgiliau'n cael eu hasesu ar draws y cydrannau, nid ydym o'r farn fod y risg bosibl hon yn gorbwyso'r buddion a nodwyd. Pryder arall oedd y posibilrwydd o broblemau ymarferol yn gysylltiedig â threfniadau ail-sefyll. Gan fod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn llawer o gymwysterau, mae'n debygol y bydd gan ganolfannau brosesau ar waith i liniaru'r pryderon hyn.

Teitl y cymhwyster

Yn ogystal â'n cynigion ymgynghori, gwnaethom wahodd ymatebwyr i rannu barn i'n helpu i benderfynu ar deitl y cymhwyster newydd. Teitl y cymhwyster newydd fydd **Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (lefel 3)**.

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, gwnaethom ystyried yr ystod eang o safbwyntiau a rannwyd â ni, yn ogystal â'r gofynion rheoliadol y mae'n rhaid i ni eu bodloni.

Roedd barn yn rhanedig ynghylch beth ddylai teitl y cymhwyster newydd ei strwythuro fod, ac roedd yn amlwg y byddai angen ystyried sawl ffactor.

Un thema a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd y brand 'Bagloriaeth' fel endid adnabyddus a chyfarwydd. Er gwaetha'r ffaith fod y fframwaith ehangach yn dod i ben, mae'n amlwg fod y termau 'Bagloriaeth Cymru' a 'Tystysgrif Her Sgiliau' yn aml yn cael eu defnyddio yn gyfnewidiol wrth ddisgrifio'r cymhwyster annibynnol sy'n seiliedig ar sgiliau. Bydd cynnwys y term Bagloriaeth yn y teitl yn helpu i gadw rhywfaint o barhad â'r cymhwyster blaenorol ac yn cydnabod y statws y mae'r cymhwyster wedi'i ennill, yn enwedig fel porth i ddysgwyr sy'n cyrchu addysg uwch. Roedd yn well gan rai ymatebwyr hefyd y gair 'Bagloriaeth' na'r term 'Tystysgrif', gan fod hyn yn aml yn gysylltiedig â mathau eraill o gymwysterau ac nid yw o reidrwydd yn nodi beth yw'r cymhwyster hwn.

Mae'r term 'Bagloriaeth' hefyd yn helpu i ddangos natur gyfannol y cymhwyster, gyda'r profiadau dysgu a ddarperir ar draws pob un o'r cydrannau yn cyfrannu gyda'i gilydd at ganlyniad cyffredinol datblygiad sgiliau dysgwr.

Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd y term 'Sgiliau.' Mae hyn oherwydd bod datblygu sgiliau wedi'i gysylltu'n glir â diben y cymhwyster. Mae'r ffocws ar sgiliau yn helpu i ddangos bod y cymhwyster yn unigryw ac mae'n dangos sut mae'n ategu'r cyfuniad o gymwysterau eraill y mae dysgwyr yn eu dewis fel rhan o'u llwybrau dysgu unigol.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gynnwys y term 'Uwch'. Mae hyn yn dangos yn glir ei fod yn gymhwyster ôl-16 ac yn helpu i ddangos cydraddoldeb â chymwysterau Safon Uwch.

Wrth gynnwys y gair 'Cymru', mae yna gydnabyddiaeth barhaus i'r dysgu unigryw y mae'r cymhwyster hwn yn ei gynnig i ddysgwyr yng Nghymru, gan gynnwys

dimensiwn Cymreig sy'n edrych i'r dyfodol a chysylltiadau rhwng y sgiliau sy'n cael eu datblygu a'r pedwar diben wrth galon y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Rydym wedi sicrhau bod y teitl newydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn ein Hamodau Cydnabod Safonol.

Y camau nesaf

Yn ogystal â'r ddogfen benderfyniadau hon, rydym wedi cyhoeddi prif adroddiad ac adroddiad cryno sy'n rhoi manylion am ganfyddiadau'r ymgynghoriad. Ar ôl gwneud ein penderfyniadau, ein cam nesaf yw defnyddio ein pwerau statudol i sicrhau'r cymhwyster a gynigiwn.

I wneud hyn, byddwn yn penodi corff dyfarnu i ddatblygu'r cymhwyster trwy broses gomisiynu. Ein bwriad yw cyfyngu'r cymhwyster hwn i un ffurf, ac i'r perwyl hwnnw byddwn yn cyhoeddi rhybudd Bwriad i Gyfyngu, i wahodd sylwadau gan yr holl randdeiliaid sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig hwn. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

Rydym yn rhagweld y bydd y cymhwyster newydd ar gael ar gyfer ei addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2023. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid i lywio ein penderfyniadau a'n gweithredoedd wrth inni symud ymlaen, gan gynnwys prifysgolion.

Rydym yn cydnabod yr angen am negeseuon clir a chyson am y cymhwyster newydd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y corff dyfarnu a Llywodraeth Cymru, i sicrhau cyfathrebu effeithiol trwy gydol y broses.

Ochr yn ochr â'n gwaith ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru), rydym wedi bod yn ystyried fersiwn Cenedlaethol/Sylfaen cyfredol y cymhwyster fel rhan o'n gwaith sy'n edrych ar gymwysterau dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn gynnar yn 2021, lansiwyd ein hail ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Roedd yn cynnwys cynnig i adnewyddu cymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen (y ffurf a gymerir gan ddysgwyr 14-16 oed), gyda ffocws ar Sgiliau Cyfannol: Cynllunio a Threfnu; Creadigrwydd ac Arloesedd; Meddwl Beirniadol

a Datrys Problemau; ac Effeithiolrwydd Personol. Ni wnaed unrhyw gynigion mewn perthynas â fframwaith Bagloriaeth Cymru Genedlaethol /Sylfaen hyd yma.

Gan ddibynnu ar ganlyniad ein hymgynghoriad am hyn, byddwn yn parhau i weithio gydag ystod o randdeiliaid i ddatblygu cynigion manwl ar gyfer ymgynghoriad yn yr hydref/gaeaf.

Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith i ddiwygio cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 - 16 oed ar ein tudalennau gwe Cymwys ar gyfer y Dyfodol yma.